



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU

Ymgynghori â'r Comisiwn drwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau

Ymgynghori â'r
Comisiwn drwy'r
Gwasanaeth
Adolygu Dyluniadau

Tabl Cynnwys

1	Cyflwyniad
2	Ynghylch y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau
2.1	Trosolwg
2.2	Pam ymgynghori â'r Comisiwn?
2.3	Y Panel Adolygu Dyluniadau
2.4	Pa brosiectau sy'n elwa o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau?
2.5	Pryd ydy'r amser gorau i ymgynghori â'r Comisiwn? Ymgysylltu'n gynnar ac yn barhaus
2.6	Pwy sy'n cael cofrestru prosiect ar gyfer y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau?
2.7	Y dull dylunio rydym yn ei argymhell
3	Y Broses Adolygu Dyluniadau
3.1	Y Broses Adolygu Dyluniadau – cyn y cyfarfod
3.1.1	Cofrestru prosiect: y cam pwysig cyntaf
3.1.2	Polisi canslo
3.1.3	Cyflwyno gwybodaeth cyn y cyfarfod adolygu
3.1.4	Rôl y Prif Banelydd
3.1.5	Ymweliad safle
3.2	Y Broses Adolygu Dyluniadau – ar y diwrnod
3.2.1	Sut fydd y cyfarfod yn cael ei strwythuro?
3.2.2	Pwy ddylai fynychu?
3.2.3	Cyflwyno'r prosiect a beth i ddod gyda chi ar y diwrnod
3.2.4	Trafodaeth
3.3	Y Broses Adolygu Dyluniadau– ar ôl y cyfarfod
3.3.1	Sylwadau Ysgrifenedig
3.3.2	Gwybodaeth ychwanegol
3.3.3	Cyfrinachedd a chyhoeddusrwydd
3.3.4	Dogfennaeth
4	Gweithdrefnau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru ac ymchwiliadau cynllunio Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr
5	Gwrthdaro buddiannau
6	Gwybodaeth gyswllt

Ein gweledigaeth ydy creu Cymru sydd yn syml, yn le gwell.

Rydym yn hyrwyddo gwaith dylunio da ar gyfer yr amgylchedd adeiledig, ar draws sectorau, drwy gysylltu'r disgyblaethau dylunio.

Rydym yn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol, datblygwyr a chleientiaid i gipio gwerth dylunio a chreu lleoedd o ansawdd uchel, er mwyn sicrhau gwell canlyniadau a gwell elw ar fuddsoddiad.

Rydym yn meithrin talent dylunio i geisio creu gweithlu medrus sy'n angenrheidiol ar gyfer twf ac arloesedd.

Drwy hyrwyddo dylunio da a chyfleu ei fanteision, rydym yn ychwanegu gwerth ac yn helpu i gefnogi lles ac ansawdd bywyd i bobl ar draws Cymru.

Un o'r ffyrdd rydym yn hyrwyddo dylunio da yw drwy ein Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau cenedlaethol, sy'n darparu cyfleoedd cynnar, strategol a pharhaus i gleientiaid, dylunwyr, datblygwyr, awdurdodau cynllunio ac eraill, i gael barn annibynnol ac i dynnu ar arbenigedd amlddisgyblaethol y Comisiwn, i ychwanegu gwerth a gwella ansawdd dylunio ar gynigion datblygu ar draws Cymru. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau eraill ar gyfer Cymorth Cleientiaid ac am ein gweithgareddau Hyfforddiant eraill ar ein gwefan: www.dcfw.org

Mae'r canllaw hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch os ydych yn ystyried defnyddio'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, neu baratoi ar gyfer cyfarfod Adolygu Dyluniadau.

Rydym yn hapus i helpu gydag unrhyw gwestiynau neu i ddarparu rhagor o wybodaeth, felly cysylltwch â ni yn connect@dcfw.org neu ffoniwch ni ar +44 (0) 29 2045 1964.

2

Ynghylch y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau

2.1

Trosolwg

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn darparu ar gyfer proses ymgysylltu hyblyg, adeiladol a strategol, sydd yn cael ei gydnabod fel bod yn gadarn ac yn awdurdodol.

Mae prosiectau'n cael eu cyflwyno i banel amlddisgyblaethol o arbenigwyr Comisiwn Dylunio Cymru, a thrwy drafodaeth adeiladol, mae'r Comisiwn yn helpu cleientiaid, datblygwyr, timau dylunio ac awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau'r ansawdd a'r gwerth dylunio gorau.

Ers 2004, rydym wedi adolygu ymhell dros 500 o brosiectau o wahanol fath a graddfa ar draws Cymru, o anheddau unigol mewn Parc Cenedlaethol i brosiectau seilwaith trafnidiaeth ac ynni mawr. Gofynnir am fewnbwn y Comisiwn yn rheolaidd, ac mae'n ychwanegu'r gwerth mwyaf ar y camau cynharaf, ymhell cyn ymgynghori â'r cyhoedd a chyflwyno ceisiadau cynllunio.

Argymhellir ymgynghori'n gynnar â'r Comisiwn ym Mholisi Cynllunio Cymru, ac mae'n cael ei gysylltu ag arfer da. Rydym yn argymhell ac yn croesawu ymgynghori cynnar ac adolygiadau strategol niferus ar gyfer prosiectau mawr neu gymhleth iawn.

Mae'r Comisiwn yn ymgynghori anstatudol, ond mae ei sylwadau yn cynrychioli ystyriaethau perthnasol ym mhenderfyniadau'r awdurdod cynllunio lleol ar geisiadau cynllunio. Mae sylwadau'r Comisiwn yn cael eu cydnabod fel bod yn awdurdodol gan yr Arolygiaeth Gynllunio.



Trafodaethau y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau wrthi'n cael eu cynnal

Pam ymgynghori â'r Comisiwn?

Nod Comisiwn Dylunio Cymru ydy i'r broses Adolygu Dyluniadau greu amser ar gyfer dylunio, helpu i leihau gwallau, a gwella ansawdd dylunio cyffredinol datblygiad yng Nghymru. Mae dylunio da yn ychwanegu gwerth mewn sawl ffordd, a bydd cynigion wedi'u cynllunio'n dda yn:

- Gwneud y gorau o effeithiolrwydd a gwerth am arian
- Canolbwyntio ar ddefnyddwyr, a mwyhau'r rhwyddineb defnyddio, hygyrchedd, cynwysoldeb a gwerth cyhoeddus
- Defnyddio adnoddau ac ynni'n effeithlon, gan gyfrannu at leihau allyriadau carbon
- Cyfrannu at wellhad sylweddol yn yr amseroedd gwella cleifion mewn gofal iechyd
- Sicrhau'r effeithlonrwydd a'r gwerth gorau posibl am arian
- Cyfrannu at well lleoedd
- Lleihau cynnal a chadw, gwaith adnewyddu costus, a chostau rhedeg
- Gwneud cynhyrchion, lleoedd ac adeiladau yn fwy deniadol
- Ychwanegu gwerth a gwella lles hirdymor y cyhoedd

Mae'r arbenigedd sydd yn cael ei gyfrannu drwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn rhan adeiladol o'r broses ddylunio. Drwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, ein nod ydy:

- Manteisio ar gyfleoedd cynnar i ychwanegu gwerth, drwy sicrhau'r ansawdd dylunio gorau posibl
- Cefnogi ac annog darparu lleoedd, adeiladau a seilwaith gwirioneddol gynaliadwy, sy'n gwella lles ac ansawdd bywyd
- Cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol, cyrff cyhoeddus ac asiantaethau eraill i gefnogi dyhead ac uchelgais ar gyfer ansawdd dylunio, i gryfhau eu canllawiau dylunio eu hunain, ac i adolygu dulliau caffael ac arferion datblygu
- Sicrhau bod unrhyw brosiectau sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus yn darparu gwerth cyhoeddus

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn hwyluso mynediad at fewnbwn dylunio arbenigol a fydd yn darparu'r canlynol:

- Sylwadau proffesiynol, annibynnol seiliedig ar ymarfer
- Nodi cyfleoedd ar gyfer gwella a gwerth ychwanegol
- Cyfoeth o arbenigedd sydd efallai ddim ar gael i dîm y prosiect, yr awdurdod cynllunio lleol, neu randdeiliaid, a allai dynnu sylw at gyfleoedd nad ydynt wedi'u nodi o'r blaen
- Sail resymegol ar gyfer penderfyniadau dylunio a chaffael
- Gwybodaeth am brosiectau datblygu blaenorol a phresennol yng Nghymru, a allai hwyluso cydgysylltu, cydweithredu a rhannu gwybodaeth
- Cyfle i gymryd cam yn ôl ac edrych o'r newydd ar y broses ddylunio, er mwyn rhoi eglurder i'r stori ddylunio.

Y Panel Adolygu Dyluniadau

Mae Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru yn defnyddio panel o 38 o weithwyr proffesiynol, pob un â'u harbenigedd arbenigol eu hunain. Mae proffil amlddisgyblaethol y tîm hwn yn golygu bod amrywiaeth o brofiad ar gael, gan gynnwys pensaernïaeth, dylunio trefol, datblygu eiddo masnachol, tirwedd, trafndiaeth, ynni, peirianeg sifil a strwythurol, cynaliadwyedd, a lleihau carbon, cynllunio a dylunio amgylcheddol.

Mae rhestr o aelodau presennol y panel yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.dcfw.org

Mae'r Panel Adolygu Dyluniadau yn cael eu penodi drwy gais a chyfweliad cystadleuol. Mae ailbenodiadau yn destun adolygiadau unigol bob dwy flynedd, i gynnal ansawdd y gwasanaeth a sicrhau cydbwysedd o arbenigedd perthnasol. Nid ydy panelwyr yn cael eu talu a gyda'i gilydd, maen nhw'n cynrychioli cefnogaeth sylweddol gan y sector preifat ar gyfer gwaith Comisiwn Dylunio Cymru.

Fel ymarferwyr presennol, mae aelodau'r panel Adolygu Dyluniadau yn diweddarau eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn gyson. Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu hyfforddiant a datblygiad hefyd, i wella'r broses adolygu'n barhaus ac i sicrhau ein bod yn hyddysg o ran arloesi mewn dylunio, datblygiadau mewn cynllunio ac arferion dylunio cynaliadwy, newidiadau i reoleiddio a pholisi, deddfwriaeth newydd, canllawiau, a materion perthnasol eraill. Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ddysgu o'r broses adolygu, ac ar rannu'r profiad a'r wybodaeth a gasglwn.

“Roedd ein hymwneud â Chomisiwn Dylunio Cymru yn greadigol ac yn gydwethredol ar bob cam o'r broses. Roedd y sgwrs yn y cyfarfod adolygu yn ddiddorol iawn, ac arweiniodd at newidiadau'n cael eu gwneud i'r dyluniad, y mae'r cynllun wedi elwa ohonynt. Fe wnaethom fwynhau'r drafodaeth, ac yn meddwl ei bod yn enghraifft dda o sut y gall Comisiwn Dylunio Cymru helpu.”

Alun Jones - Dow Jones Architects ar gyfer Maggie's Caerdydd



Trafodaethau y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau wrthi'n cael eu cynnal



Pa brosiectau sy'n elwa o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau?

Mae ein gwasanaeth Adolygu yn agored i unrhyw un, ac fe'i gweithredir yng nghyd-destun ein hymrwymiad i wneud lleoedd da, ac i amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'r Comisiwn yn blaenoriaethu cynlluniau sydd yn:

- Arwyddocaol oherwydd eu safle ac /neu eu cyd-destun
- Arwyddocaol oherwydd eu maint, cymhlethdod, neu effaith gyhoeddus
- Enghreifftio problemau dylunio parhaus sy'n wynebu datblygwyr, awdurdodau cynllunio lleol neu grwpiau cymuned a chymdogaeth

Rydym yn ystyried prosiectau sy'n amrywio o ran math a maint ar draws Cymru gan gynnwys:


- Safleoedd Strategol; prif gynlluniau a fframweithiau dylunio trefol
- Adnewyddu pentref, tref a chanol y ddinas
- Prosiectau tir y cyhoedd a thirwedd
- Treftadaeth, cadwraeth a darpariaeth ddiwylliannol
- Adeiladau unigol
- Datblygiadau defnydd preswyl a chymysg
- Gofal lechyd, ysgolion, ac adeiladau gwasanaethau i'r cyhoedd
- Trafnidiaeth a phrosiectau seilwaith ynni

Gall pwysigrwydd neu effaith prosiect gamliwio'i raddfa. Mae prosiectau llai yr un mor bwysig i ni os oes potensial i gael effaith sylweddol.

Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r gwasanaeth i weithio ar gynigion meistr-gynllun a/neu gyfleoedd datblygu strategol, a'u rhoi ar brawf.

Pryd ydy'r amser gorau i ymgynghori â'r Comisiwn? Ymgysylltu'n gynnar ac yn barhaus

Graff yn dangos sut gall ymgysylltu'n gynnar yn y broses ddylunio ychwanegu gwerth, a sut gall ymgysylltu'n hwyr yn y broses ddylunio fod yn ddrud ac achosi oedi



Mae ymgysylltu'n gynnar yn hanfodol er mwyn gwneud y mwyaf o fanteision y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau. Pan fo cynigion ar y cam ffurfiannol, gall yr arbenigedd sydd ar gael drwy'r Comisiwn fod yn fwyaf effeithiol fel rhan adeiladol o'r broses ddylunio. Camau cynnar dylunio datblygiad a gwneud penderfyniadau sy'n cynnig y cyfleoedd mwyaf i sicrhau ansawdd da, ychwanegu gwerth, ac osgoi'r costau o ail-weithio neu wneud newidiadau yn nes ymlaen. Fel arfer, bydd hyn yn gynnar yn y cyfnod cyn cyflwyno cais, tua hanner ffordd drwy safon Cam 2 RIBA (Dylunio Cysyniad), unwaith y bydd y dull dylunio sylfaenol wedi cael ei ddiffinio.

Mae ymgynghori'n gynnar gyda'r Comisiwn yn cael ei argymhell ym *Mholisi Cynllunio Cymru (PPW10)* a *Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN 12)*. Gallwch ddod o hyd i ddolenni i'r dogfennau hyn ar dudalen **XX** o'r cyhoeddiad hwn.

Noder na ddylid ystyried y broses Adolygu Dyluniadau yn rhywbeth sy'n cymryd lle ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda'r awdurdod cynllunio lleol.

Ar gyfer safleoedd strategol, prosiectau mwy, Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol (DNS), Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs), cludiant neu seilwaith arall, rydym yn argymhell trefnu cyfarfod cwmpasu cynnar i sefydlu natur ac anghenion y prosiect, yr amserlen rydych chi'n gweithio oddi mewn iddi, a sut y gall y Comisiwn helpu orau.

Mae'r Comisiwn yn croesawu ymgysylltu dros y tymor mwy, a gallai adolygu prosiect sawl gwaith drwy ei broses dylunio a datblygu. Mae croeso i dimau ddychwelyd pan mae'n amlwg y byddai adolygiadau ychwanegol yn ddefnyddiol.

Mae'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn hyblyg, ac er bod nifer fach o gyfarfodydd yn cael eu cynllunio ymlaen llaw bob mis, rydym yn ychwanegu at y rhain yn rheolaidd, i ddarparu ar gyfer prosiectau mewn modd amserol ac er mwyn caniatáu ar gyfer ymgysylltu dros y tymor mwy, sesiynau diwrnod llawn neu hanner diwrnod, weithiau ar gyfer cynlluniau unigol. Rydym yn cynnig ein gwasanaethau ar-lein hefyd, a thrwy ystod o gyfleusterau fideo-gynadleda.

Noder: Er mwyn sicrhau preifatrwydd pawb sy'n mynychu ac i fodloni gofynion GDPR, nid yw Comisiwn Dylunio Cymru yn recordio cyfarfodydd fideo-gynadledda waeth pa blatfform a ddefnyddir (Zoom, MSTeams, Webex ac ati). Nid yw Comisiwn Dylunio Cymru ychwaith yn awdurdodi unrhyw berson neu barti sy'n mynychu i recordio cyfarfod cyfan neu ran o unrhyw gyfarfod.

Ni fwriedir i Adroddiadau Adolygu Dyluniadau sydd yn cael eu llunio yn dilyn cyfarfod adolygu i fod yn set o gofnodion ond yn hytrach, yn rhagarweiniad adeiladol i safbwynt y Panel o ran materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.

In y lle cyntaf, **rydym yn argymhell yn gryf eich bod chi'n ffonio neu yn anfon e-bost atom**, fel y gallwn gofrestru eich prosiect a thrafod pa fath o ymgysylltu fydd yn gweithio orau i'ch cynllun.

2.6

Pwy sy'n cael cofrestru prosiect ar gyfer y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau?


Mae'r gwasanaeth ar gael i ddatblygwyr, cleientiaid, dylunwyr, awdurdodau cynllunio, rhanddeiliaid a chyrrff cyhoeddus eraill, grwpiau cymunedol neu aelodau o'r cyhoedd sy'n dymuno cael barn arbenigol annibynnol, a manteisio ar arbenigedd y Comisiwn. Gall unrhyw rai o'r uchod elwa drwy fod yn destun adolygiad, a gofyn am ymgynghoriad gyda'r Comisiwn ac yn y rhan fwyaf o achosion, cofrestru prosiect ar gyfer y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau.

Ym mhob achos, mae adolygiad yn cael ei gynnal yn ddelfrydol gyda'r cleient, y tîm dylunio a'r awdurdod lleol yn bresennol. Ar adegau, gall y Comisiwn wrthod adolygu prosiect sy'n rhy bell ymlaen yn y broses, neu lle nad oes llawer o le i ychwanegu gwerth.

Os ydych chi'n rhan o brosiect a fyddai, yn eich barn chi, yn elwa o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, cysylltwch â ni i drafod eich prosiect ac i gofrestru ar gyfer cyfarfod adolygu.

'Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau am ddim, sy'n galluogi pobl i ymgynghori'n gynnar â'i banel arbenigol annibynnol. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi astudiaethau achos ac yn cynhyrchu canllawiau arfer da ar faterion yn ymwneud â dylunio, a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau cyn ymgeisio.'

t. 13, Canllaw Ymarfer: Gwireddu potensial trafodaethau cyn ymgeisio, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2012



2.7

Y dull dylunio rydym yn ei argymhell

2.7.1

Ymateb i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau

Mae dull y Comisiwn at werthuso ansawdd dylunio yn annibynnol, yn arbenigol ac yn cael ei lywio gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru, polisi cynllunio, canllawiau a safonau cenedlaethol a lleol perthnasol. Mae'r rhain yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu yng Nghymru, ac yn annog arferion dylunio da. Yn y cyfarfod Adolygu Dyluniadau, rydym yn chwilio am dystiolaeth bod cynigion yn cael eu cynllunio mewn ymateb i'r canlynol:

Deddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau	Ymateb Dylunio
Deddf Cynllunio (Cymru) 2015	Cyd-destun a phroses cynllunio
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Yn ymateb i'r Saith nod Llesiant: <ul style="list-style-type: none"> – Cymru lewyrchus – Cymru gydnherth – Cymru iachach – Cymru sy'n fwy cyfartal – Cymru o gymunedau cydlynus – Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu – Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Yn Cynnal y Pum Dull o Weithio: <ul style="list-style-type: none"> – Hirdymor – Atal – Integreiddio – Cydweithio – Cynnwys
Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013	Gwella cyfleoedd i feicio a cherdded ar gyfer teithiau bob dydd
Deddf Cydraddoldeb 2010	Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb
Polisi Cynllunio Cymru 10	Cynllunio'r defnydd o dir Creu lleoedd ardderchog Cynaliadwyedd trwy ddylunio a chynllunio da
Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio	Cynaliadwyedd trwy gynllunio da
TAN 18: Trafnidiaeth	Systemau trafndiaeth effeithiol, cynaliadwy ac iach
Canllaw i Arfer: gwireddu potensial trafodaethau cyn ymgeisio	Wedi'i lywio gan drafodaeth gyda'r awdurdod cynllunio lleol
Canllaw i Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Cipro gwerth safle	Dadansoddiad cynnar, llawn gwybodaeth o'r safle a'r canllawiau
Canllaw i Arfer: cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy	Dull integredig o ran dylunio cynaliadwy a chynllunio
Dylunio Cynhwysol yn yr Amgylchedd Adeiledig	Dylunio i bawb
Adeiladu am Oes 12 (Cymru)	Ansawdd dylunio trefol mewn datblygiad preswyl
Llawlyfr ar gyfer Strydoedd Cyfrolau 1 a 2	Strydoedd sy'n canolbwyntio ar bobl
Canllawiau Dylunio: Deddf Teithio Llesol (Cymru)	Gwell cyfleoedd ar gyfer beicio a cherdded ar gyfer teithiau bob dydd

2.7.2

Dylunio integredig, oes gyfan

Mae'r Comisiwn yn argymhell dull **integredig** o gynllunio, yn hytrach nag ystyried gwahanol faterion ar wahân. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen arbenigedd gwahanol mewn tîm dylunio integredig o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys penseiri, penseiri tirwedd, dylunwyr trefol, dylunwyr amgylcheddol, peirianwyr ac ymgynghorwyr cost.

Mae dylunio da nid yn unig yn ymwneud â sut olwg sydd ar adeilad, lle neu le, ond hefyd, ar ba mor dda mae'n perfformio. Mae dyluniad y dirwedd a thir y cyhoedd yr un mor bwysig â dyluniad adeiladau, ac mae'r berthynas rhwng y ddau yn bwysig iawn. Ni ellir ychwanegu dylunio a pheirianneg amgylcheddol yn effeithiol at brosiect yn ddiweddarach yn y broses ddylunio.

Rydym yn argymhell manteisio i'r eithaf ar werth 'oes gyfan' datblygiad drwy hyrwyddo dylunio cynaliadwy sydd yn:

- Atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol ac ymdeimlad o gymuned
- Cyfrannu at ffyniant economaidd
- Lleihau effaith amgylcheddol negyddol
- Cyfrannu at ddad-garboneiddio
- Cyfrannu at iechyd a lles
- Gwella gwerth cyhoeddus hirdymor
- Gwella hunaniaeth lle/ymdeimlad o le.

2.7.3

Amser ar gyfer dylunio ac ymgysylltu ystyrion

Er mwyn sicrhau'r ansawdd a'r gwerth gorau, mae angen digon o amser ar gyfer dylunio ac ymgysylltu ystyrion.

O brofiad, mae'r Comisiwn yn gwybod bod buddsoddi yn y camau dylunio cynnar a chaniatáu amser ar gyfer proses ailadroddol o ddadansoddi a phrofi yn arwain at ddylunio gwell, ac yn helpu i leihau risgiau a chost yn ddiweddarach yn y prosiect.


Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 gyfnod statudol o Ymgynghori Cyhoeddus cyn cyflwyno cais cynllunio. Nid yw ymgynghori cyhoeddus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill yn ystyrion oni bai eu bod yn llywio'r broses ddylunio. I gyflawni hyn, mae angen amser i ddadansoddi adborth a gwneud newidiadau cyn gwneud cais cynllunio. Bydd y Comisiwn yn disgwyl i hyn gael ei raglennu'n llawn.

'Gall dylunio da arbed arian, lleihau risgiau, ychwanegu gwerth, darparu mwy o brosiectau ar amser a chreu seilwaith sy'n edrych yn dda ac sy'n gweithio'n dda i bawb. Dylai pob prosiect seilwaith sydd ag arwyddocâd cenedlaethol gael hyrwyddwr dylunio ar lefel bwrdd, a defnyddio panel dylunio annibynnol i gynyddu'r gwerth a ddarperir gan y seilwaith.'

Adroddiad Asesu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU 2018, dan gadeiryddiaeth Syr John Armitt, CBE FREng, cyn gadeirydd Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd a Llywydd Sefydliad y Peirianwyr Sifil 2015-16

3

Y Broses Adolygu Dyluniadau



3.1 Y Broses Adolygu Dyluniadau – cyn y cyfarfod

3.1.1 Cofrestru prosiect: y cam pwysig cyntaf

Cam cyntaf y broses yw cofrestru eich cynllun, fel bod gennym wybodaeth sylfaenol am y cynnig a'n bod ni'n deall ei natur, ei statws cynllunio a'i amserlenni. Ffoniwch neu anfonwch e-bost atom i gael dogfen gofrestru cyn gynted â phosibl. Anfonwch e-bost at connect@dcfw.org, neu ffoniwch +44 (0) 29 2045 1964.

Unwaith y byddwn yn derbyn dogfen gofrestru wedi'i chwblhau, byddwn yn cysylltu â chi am eich prosiect a'ch rhaglen, i drefnu faint o amser a faint o gyfarfodydd y gallai fod eu hangen arnoch, a phryd y dylent ddigwydd.

Ni allwn wneud unrhyw drefniadau nes bod y cynllun wedi'i gofrestru. Cwblhau a dychwelyd eich dogfen gofrestru ydy'r cam cyntaf yn y broses.

3.1.2 Polisi canslo

Mae proses baratoi Comisiwn Dylunio Cymru ar gyfer ymgynghori trwy'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau yn ddwys ac yn gofyn am swm sylweddol o adnoddau, gwaith papur a chytuno ar ymrwymadau dyddiadur llawer o weithwyr proffesiynol.

Am y rheswm hwn, unwaith y byddwch wedi cadarnhau, os ydych yn dymuno canslo, rhaid i chi ganslo cyn y dyddiad cau o **bythefnos** cyn yr adolygiad. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y dyddiad canslo pan fyddwn yn cadarnhau'r trefniadau gyda chi. Byddwn yn ceisio ail-drefnu cyfarfodydd, ond dim ond os byddwn yn cael gwybod am newidiadau neu os ydych yn canslo cyn y dyddiad cau.

Os byddwch yn canslo ar, neu ar ôl y dyddiad cau, byddwch yn gorfod talu **tâl gweinyddol o £500**.

3.1.3

Cyflwyno gwybodaeth cyn y cyfarfod adolygu

Bydd angen i chi gyflwyno pecyn o ddeunyddiau cyn y cyfarfod adolygu i Gomisiwn Dylunio Cymru bythefnos cyn dyddiad y cyfarfod. Byddwn yn cadarnhau'r dyddiad erbyn pryd y mae angen yr wybodaeth hon pan fyddwn yn cadarnhau dyddiad ac amser eich cyfarfod. Bydd angen **un copi caled** arnom ac **un copi electronig** o'r wybodaeth cyn y cyfarfod adolygu.

Pwrpas cyflwyno deunyddiau i'r Comisiwn cyn y cyfarfodydd adolygu ydy i alluogi tîm Comisiwn Dylunio Cymru i ddeall ac ystyried y cynllun a'i gynigion. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ddefnyddiol ar gyfer ein hymweliad safle, ac yn cyfrannu at drafodaeth adeiladol, fanwl yn y cyfarfod adolygu.

Bydd y deunydd a'r wybodaeth sydd yn cael eu rhoi gennych yn adlewyrchu cam datblygu eich prosiect. Rydym yn deall y gall prosesau dylunio aros yr un fath a bod yn debygol o newid. Dylai'r deunydd fod yn gryno ond yn cyfathrebu hanfodion y prosiect a'r dull a ddefnyddir yn glir. Bydd y lefel a'r math o wybodaeth yn dibynnu ar faint a natur y cynllun, ond fel canllaw ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, dylai gynnwys:

- Amlinelliad o weledigaeth, amcanion a brîff y prosiect.
- Cynllun o'r lleoliad (i hwyluso ymweliad safle) a chynlluniau presennol o'r safle.
- Cynlluniau trychiadau a gweddluniau cyfredol, sy'n dangos cyd-destun (strwythurau a thirwedd).
- Dadansoddiad perthnasol o'r safle a'i gyd-destun, yn dangos sut mae hyn wedi llywio'r dull dylunio
- Cynlluniau'n dangos sut mae'r dyluniad wedi datblygu, a pham
- Darluniau strategaeth i ddangos eich dull at:
 - fynediad a symudiad
 - ddylunio amgylcheddol ar gyfer cysur a chynaliadwyedd
 - osodiad, dwysedd a chyfeiriadedd
 - ddylunio tirwedd
 - ffurf a màs ac ati.
- Dylai pob dyluniad ddangos y pwynt gogleddol yn glir, a chynnwys bar graddfa.
- Datganiad Dylunio a Mynediad drafft clir a chryno os yw'n berthnasol. Dylai hyn fod yn weledol gyfoethog, ac esbonio'r dull dylunio drwy ddiagramau a lluniadau yn hytrach na thestun. Cyfeiriwch at y ddogfen *Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru*, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Dylai unrhyw ddelweddau blaenorol a ddefnyddir yn y cyflwyniad nodi enw'r pensaer, enw'r prosiect, a lleoliad y prosiect.

Dylai deunyddiau a gwybodaeth ar gyfer prosiectau seilwaith mawr gynnwys yr hyn a restrir uchod, yn ogystal â'r isod:

1 Prif ffeithiau

- Rhaglen prosiect amlinellol syml, sy'n dangos dyddiadau pwysig a chyfnodau gwaith, o ddechrau'r prosiect i'r dyddiad y disgwylir i'r gwaith adeiladu gael ei gwblhau
- Briff ac amcanion prosiect, gan gynnwys unrhyw ddyheadau neu safonau ehangach i'w cyflawni (e.e. datblygiadau cysylltiedig gan bartïon eraill, CEEQUAL ac ati).
- Manylion y broses gydsynio e.e. cais cynllunio, Gorchymyn Caniatâd Datblygu, Gorchymynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, ac awdurdod cydsynio perthnasol, ac amlinelliad cryno o bolisiâu perthnasol allweddol
- Ffynhonnell ddisgwyliedig o gyllid a statws (e.e. yn amodol ar benderfyniad pellach, rhaid ei wario erbyn dyddiad penodol, ac ati
- Cleient presennol, ymgynghorydd a'r tîm o gontractwyr.

2 Dadansoddiad

- Cynllun o leoliad y safle
- Lluniadau'r safle 'fel ag y maen nhw' (cynlluniau, trychiadau, gweddluniau fel y bo'n briodol i esbonio topograffeg, tirwedd a strwythurau cyfredol)
- Dadansoddiad perthnasol o'r safle a'r cyd-destun, yn dangos sut mae hyn wedi llywio eich strategaeth dylunio.

3 Strategaeth

Diagramau a darluniau 2D a 3D i ddangos eich dull mewn perthynas â'r canlynol:

- Llwybrau i bobl, moddau trafndiaeth, cerbydau a systemau trafndiaeth
- Lle mae gwaith newydd wedi'i leoli a pham
- Gosodiad, graddfa, ffurf ac effaith weledol y dyluniad
- Effaith gymdeithasol ac amgylcheddol (gan gynnwys ynni a charbon ymgorfforedig)
- Dylunio tirwedd
- Unrhyw waith dros dro a gwaith adfer yn y dyfodol
- Newidiadau priodol i'r seilwaith presennol (yn enwedig lle mae'r gwaith newydd yn disodli neu'n ategu'r ddarpariaeth bresennol).

4 Cynigion dylunio

- Cynlluniau, trychiadau a gweddluniau o'r cynigion, lluniadau o'r Trefniadau Cyffredinol a'r lleoliad
- Delweddau 3D o'r cynigion, sy'n dangos cyd-destun (lle mae llawer o goed yn cael eu plannu, dylai delweddau ddangos 'blwyddyn 1' a golygfeydd ar ôl twf sylweddol mewn coed)
- Datganiad Dylunio, a ddylai gynnwys gwybodaeth o'r holl eitemau a ddangosir uchod. Dylai fod yn weledol gyfoethog, ac esbonio'r dull dylunio drwy ddiagramau a lluniadau, yn hytrach na thestun. Ni ddylai ddyblygu cynnwys unrhyw Ddatganiad Cynllunio sy'n ystyried agweddau manwl ar bolisi cynllunio.

Efallai nad ydy'r math o 'Ddatganiad Dylunio a Mynediad' a ddefnyddir ar gyfer ceisiadau cynllunio manwl ar gyfer adeiladau yn ofyniad caeth ar gyfer pob proses ganiatâd, ond rydym yn annog yn gryf eich bod yn paratoi datganiadau dylunio clir, gwledol gyfoethog a dogfennau bwriad dylunio ar gyfer pob prosiect seilwaith.

3.1.4

Rôl y Prif Banelydd

Bydd un o'n panelwyr Adolygu Dyluniadau yn arwain y gwaith o adolygu eich prosiect. Byddant yn ymweld â'r safle ac yn astudio'r deunydd rydych yn eu hanfon cyn y cyfarfod, gan nodi materion dylunio allweddol lle gellir gwella ansawdd, gwella perfformiad a phrofiad y defnyddwyr, ac ychwanegu gwerth. Byddant yn arwain y ddeialog a'r drafodaeth ynghylch y pwyntiau allweddol hyn yn y cyfarfod Adolygu Dyluniadau. Bydd y prif banelwyr yn rhannu unrhyw arsylwadau ac yn bwysig, yn agor y ddeialog ar ddechrau'r drafodaeth.

3.1.5

Ymweliad safle

Er mwyn galluogi'r prif banelydd i ymweld â'r safle, dylech roi manylion cyswllt a gwybodaeth am gyfyngiadau neu drefniadau mynediad arbennig sy'n ymwneud â'r safle yn eich dogfen gofrestru.

Os ydych yn trefnu cyfarfod aelod o dîm Comisiwn Dylunio Cymru ar y safle, sylwer bod rhaid i drafodaeth gael ei gyfyngu i egluro'r deunydd cyn yr adolygiad, ac NID ceisio dyfalu yn y cyfarfod adolygu neu wneud achos hyrwyddo ar gyfer y cynllun.

3.2

Y Broses Adolygu Dyluniadau – ar y diwrnod

3.2.1

Sut fydd y cyfarfod yn cael ei strwythuro?

Bydd eich cyfarfod adolygu yn dilyn yr un strwythur, lle rydych chi a'ch tîm yn ymuno â ni ar-lein neu mewn person. Mae'r diagram yn dangos sut mae cyfarfod Adolygu Dyluniadau nodweddiadol yn cael ei strwythuro:

BRÏFF CYNLLUNIO PANEL ADOLYGU DYLUNIADAU COMISIWN DYLUNIO CYMRU

Y TÎM CYFLWYNO A'R AWDURDOD CYNLLUNIO YN CAEL EU GWAHODD I'R YSTAFELL GYFARFOD

GOSOD Y DEUNYDD CYFLWYNO YN ÔL Y GOFYN

CROESO GAN GADEIRYDD Y CYFARFOD ADOLYGU DYLUNIADAU A CHYFLWYNIADAU

CYFLWYNO'R CYNLLUN –15 MUNUD FEL ARFER – NEU'N HIRACH YN DIBYNNU AR EICH CYNNIG

TRAFODAETH ADEILADOL – 1 AWR/2AWR/HANNER DIWRNOD, YN DIBYNNU AR GYNIGION

CRYNODEB CADEIRYDD Y CYFARFOD ADOLYGU DYLUNIADAU

Y TÎM CYFLWYNO AC AWDURDOD CYNLLUNIO YN GADAEL

PANEL ADOLYGU DYLUNIADAU COMISIWN DYLUNIO YN GORFFEN Y DRAFODAETH

Efallai y rhoddir mwy o amser i gynlluniau mawr neu gymhleth iawn, a bydd hyn wedi cael ei drafod pan wnaethoch chi gofrestru'r prosiect. Byddwch yn cael gwybod ymlaen llaw am amser eich cyfarfod, a byddwch yn cael yr holl fanylion sydd eu hangen arnoch os ydych chi'n ymuno â ni ar-lein.

Noder: Er mwyn sicrhau preifatrwydd pawb sy'n mynychu ac i fodloni gofynion GDPR, nid yw Comisiwn Dylunio Cymru yn recordio cyfarfodydd fideo-gynadledda waeth pa blatfform a ddefnyddir (Zoom, MSTeams, Webex ac ati). Nid yw Comisiwn Dylunio Cymru ychwaith yn awdurdodi unrhyw berson neu barti sy'n mynychu i recordio cyfarfod cyfan neu ran o unrhyw gyfarfod.

Ni fwriedir i Adroddiadau Adolygu Dyluniadau sydd yn cael eu cynhyrchu yn dilyn cyfarfod adolygu i fod yn set o gofnodion ond yn hytrach, yn rhagarweiniad adeiladol i safbwynt y Panel o ran materion a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.

3.2.2

Pwy ddylai fynychu?

Mae'n fwyaf buddiol os fydd y canlynol yn mynychu'r cyfarfod:

- cleient/datblygwr
- aelodau allweddol o'r tîm dylunio
- ymgynghorydd cynllunio
- awdurdod cynllunio lleol
- rhanddeiliaid pwysig eraill

Fel arfer, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn gwahodd cynrychiolydd o'r awdurdod cynllunio lleol i'r cyfarfod, ac yn gofyn iddynt ddarparu Briff ysgrifenedig o'r Cyd-destun Cynllunio ymlaen llaw, fel ein bod ni'n ymwybodol o'u barnau ac unrhyw bryderon.

Fel arfer, bydd tua phum cynrychiolydd o Banel Adolygu Dyluniadau Comisiwn Dylunio Cymru yn bresennol, gan gynnwys o leiaf un o'n Cynghorwyr Dylunio a Lle o'n tîm o staff, yn ogystal â'n Prif Weithredwr. Bydd un o'r panelwyr yn cadeirio'r cyfarfod.

Weithiau, gallai arsylwyr fod yn bresennol i arsylwi'r broses ar gyfer dibenion datblygiad proffesiynol, neu i gael ymarfer neu fel rhan o'u hastudiaethau. Mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru brotocolau cadarn ar gyfer arsylwyr sy'n berthnasol ar gyfer yr holl brosiectau, yn enwedig os yw timau wedi gofyn am ymgynghoriad cyfrinacholn.

3.2.3

Cyflwyno eich prosiect a beth i ddod gyda chi ar y diwrnod

Yn dilyn croeso gan y Cadeirydd a chyflwyniadau, bydd angen i chi gyfleu eich cynigion datblygu presennol yn glir ac yn gryno, a'r broses a gymerwyd gennych i gyrraedd yno. Fel arfer, byddwch yn cael **15 munud** i wneud hyn, yn dibynnu ar eich cynnig. Mae'n bwysig cadw at yr amser, gan fod gwerth y cyfarfod yn y drafodaeth a'r ddeialog â'r panel arbenigol.

Rydym yn cydnabod y gellir gwneud cryn dipyn o gynnydd rhwng cyflwyno deunydd cyn y cyfarfod adolygu a'r cyfarfod ei hun, felly dylech anelu at ddiweddarau Comisiwn Dylunio Cymru, a nodi meysydd sydd wedi newid neu ddatblygu.

Dylai eich cyflwyniad drafod y canlynol:

- Amlinelliad **cryno** o weledigaeth, amcanion a briff y prosiect
- Trosolwg cryno o'r cyd-destun caffael a chynllunio, gan gynnwys dyddiadau pwysig
- Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd ag unrhyw strategaeth adfywio ehangach ac / neu weledigaeth strategol neu brif gynllun
- Dadansoddiad perthnasol o'r safle a'i gyd-destun, yn dangos sut mae hyn wedi llywio'r dull dylunio
- Dangos eich dull strategol mewn perthynas â'r canlynol:
 - mynediad a symudiad, gan gynnwys Teithio Llesol
 - cyfraniad at ofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
 - dyluniad cynhwysol
 - gosodiad, dwysedd a chyfeiriadedd
 - dylunio tirwedd
 - ffurf a màs ac ati.
- Trosolwg o'r cais dylunio, gan gynnwys creu lleoedd, dyluniad y dirwedd / tir y cyhoedd,
- Manylion y cynllun fel y bo'n briodol ar gyfer y cyfnod dylunio cyfredol
- Y camau nesaf sydd wedi'u cynllunio

Mae croeso i chi ddefnyddio byrddau neu daflenni (bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn darparu îs os byddwch yn ymuno â ni mewn person) a/neu PowerPoint neu un cyflwyniad PDF cryno ar gyfer platfformau cynadledda fideo a rhannu sgrin.

Bydd ein hoffer sgrin clyfar clyweledol yn cael eu gosod yn barod os ydych chi'n ymuno â ni mewn person. Gallwch ddod â'ch cyflwyniad ar USB, neu ei anfon atom yn electronig, fel y gallwn ei lwytho ymlaen llaw. Mae hwn yn gallu cael ei anfon drwy e-bost (hyd at 20mb), Dropbox neu raglen rhannu ffeiliau cyffredin arall.

Mae trefniadau fideo-gynadledda yn mynnu eich bod chi'n rhoi un PDF i ni cyn y cyfarfod, er mwyn gallu rhannu sgrin yn ystod y cyflwyniad a'r drafodaeth.

Croesewir modelau corfforol, ac maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol i gyfleu graddfa, màs ac effaith leol. Does dim angen iddynt fod yn gymhleth, ac rydym yn croesawu modelau gweithio os ydych chi'n cyfarfod gyda ni mewn person, neu luniau da o fodelau o nifer o onglau gwahanol os ydych chi'n ymuno â ni ar-lein. Ni allwn storio modelau corfforol, felly dewch â nhw gyda chi ar y diwrnod.

Noder: Mae gennym risiau mynediad ar y llawr gwaelod, mynedfa hygyrch amgen, liffth rhestredig Gradd II a drysau lled safonol i'n swyddfa.

Ni ddylid dibynnu ar animeiddiadau neu deithiau symudol trwy fodelau rhith-weledol fel y prif ddeunydd ar gyfer y cyfarfod, a dylai'r tîm dylunio wirio eu bod yn gydnaws â'r offer cyfrifiadurol yn y Comisiwn Dylunio ymlaen llaw, a'u heffeithiolrwydd o ran eu defnyddio mewn cyfarfodydd fideo-gynadledda.

Yn dilyn y cyflwyniad, bydd yr awdurdod cynllunio lleol, os yn bresennol, yn cael ei wahodd i wneud sylwadau.

3.2.5

Trafodaeth

Mae'r cyfarfod Adolygu Dyluniadau wedi'i strwythuro i hyrwyddo deialog rhwng Comisiwn Dylunio Cymru a thîm y prosiect, gan ganiatáu cyfnewid adeiladol ond gonest ar sail cydwybodaeth am ddatblygu, cynllunio, dulliau dylunio, hyfywedd masnachol ac arferion caffael. Mae'r drafodaeth o reidrwydd yn drylwyr ac, yn yr amser sydd ar gael, mae ein cwestiynau a'n gwerthusiad yn debygol o fod yn uniongyrchol, yn gadarn ac yn dreiddgar, tra'n bod yn adeiladol ac yn gwrtais.

Wrth gloi, bydd y Cadeirydd yn ceisio crynhoi'r pwyntiau allweddol i'w distyllu yn yr Adroddiad Adolygu Dyluniadau.

"Dim ond rhoi gwybod i chi - Heddiw cafodd fy natblygiad cartrefi passivhaus yng Ngorllewin Cymru ei gymeradwyo. Does dim angen dweud, rwyf yn hapus iawn gyda'r canlyniad hwn, a hoffwn ddiolch i chi a'ch tîm am yr holl gefnogaeth yn ystod y broses. Rwy'n argyhoeddedig bod y cyfarfod Adolygu Dyluniadau wedi helpu'n sylweddol i ddatblygu'r cynllun, ac rwy'n credu'n gryf pe na bawn wedi defnyddio'r dull hwn, y byddai'r cynllun o ansawdd llawer is na'r hyn sydd wedi'i gymeradwyo."

Green Gull Ltd

Aelodau'r panel, timau dylunio a datblygwyr yn sgwrsio mewn cyfarfod adolygu



3.3

Y Broses Adolygu Dyluniadau– ar ôl y cyfarfod

3.3.1

Sylwadau ysgrifenedig

Bydd sylwadau Comisiwn Dylunio Cymru yn cael eu gosod allan mewn adroddiad ysgrifenedig, fydd yn cael eu cyhoeddi i'r rheiny a fynychodd y cyfarfod o fewn 10 - 14 diwrnod gwaith. Bydd yr adroddiad hwn yn distyllu ac yn gyfystyr â'n sylwadau swyddogol, a bydd yn rhoi pwyslais ar y meysydd sydd fwyaf pwysig o ran datblygu'r cynllun i gyflawni'r ansawdd a'r gwerth gorau.

Ni ddylai'r adroddiad ysgrifenedig gael ei drin fel set o gofnodion cyfarfodydd. Bydd mor fyr ag y bo modd, mewn iaith glir, ac yn pwysleisio materion allweddol oedd yn deillio o'r drafodaeth. Bydd yn cael ei osod yn y fath fodd ag i fod yn ddefnyddiol i'w ystyried a'i ddefnyddio gan bob parti, gan gynnwys y cyhoedd ehangach a rhanddeiliaid eraill, Awdurdodau Cynllunio Lleol, a'r Arolygiaeth Gynllunio.

3.3.2

Gwybodaeth ychwanegol

Sylwadau'r Comisiwn yw ei farn annibynnol, arbenigol ar yr adeg yr ymgynghorwyd â hi ac ar sail deunydd sydd ar gael. Mae sylwadau'r Comisiwn yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio, ac yn cael eu cydnabod gan yr Arolygiaeth Gynllunio. Gellir defnyddio sylwadau'r Comisiwn ac Adroddiadau Adolygu Dyluniadau cyflawn mewn cyflwyniadau i'r Arolygydd Cynllunio mewn Ymchwiliadau Cyhoeddus ac Apeliadau Cynllunio.

Nid yw'r Comisiwn yn cynnig dadansoddiad o p'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer cais. Mae hwn yn fater sy'n briodol i gylch gwaith yr awdurdodau cynllunio lleol. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn cwestiynau, gwneud sylwadau neu fynegi barn ar faterion o'r fath, gan gynnwys y cyd-destun cynllunio, perthynas â pholisi a chanllawiau cynllunio lleol a chenedlaethol, ac ansawdd y cais. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cydnabod fel ystyriaethau perthnasol yn y broses gynllunio.

Os am unrhyw reswm nad yw Comisiwn Dylunio Cymru yn dymuno bod yn rhan o'r prosiect y mae wedi ymgynghori arno, bydd yn dweud hynny yn ysgrifenedig. Mewn achosion o'r fath, nid oes angen i Gomisiwn Dylunio Cymru ymgynghori yn ffurfiol eto fel rhan o'r broses gynllunio. **Ym mhob achos arall, dylai Comisiwn Dylunio Cymru gael ei hysbysu pan fydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno.**

3.3.3

Cyfrinachedd a chyhoeddusrwydd

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r sylwadau ysgrifenedig yn cael eu cyhoeddi ar unwaith drwy wefan y Comisiwn a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a phlatfformau eraill. Mae'r Comisiwn yn sylwebu yn y ffordd hon at ddibenion cofnod cyhoeddus ac er budd y cyhoedd.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cydnabod bod y camau dylunio cynnar, llawn gwybodaeth, pan mae'r cyfarfod Adolygu Dyluniadau yn gallu bod o'r gwerth mwyaf yn aml, yn gallu bod ymhell cyn trafodaethau cynllunio manwl, ymgynghoriad cyhoeddus, a chyflwyniadau cynllunio. Felly, efallai ar adegau, y byddwn yn cynnig

prosiectau sydd ddim yn y parth cyhoeddus eto, sef cyfarfod cyfrinachol, am amser cyfyngedig ac hyd nes y daw'n gyhoeddus, drwy unrhyw blatfformau sy'n cynnwys gwefannau, y cyfryngau, deunyddiau ymgynghori cyhoeddus a cheisiadau cynllunio. Byddwn yn gwneud hyn ar sail achos wrth achos ac er mwyn gwarchod buddiannau'r tîm dylunio, a'u galluogi i archwilio gwahanol syniadau a dulliau gyda ni ar gam cynnar.

Ym mhob achos, fodd bynnag, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn rhoi gwybod am ei farnau i'r awdurdod lleol a lle bo'n briodol, i gyrff cyhoeddus eraill.

Mewn achosion ble mae'r ymgeisydd neu eraill yn rhoi cyhoeddusrwydd neu yn hyrwyddo'r prosiect drwy argraffiadau artist, delweddau eraill neu sylwadau llafar, neu trwy ddyfynnu sylwadau'r Comisiwn cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno, bydd Comisiwn Dylunio Cymru hefyd yn gwneud ei farn yn gyhoeddus.

Pan fydd cais cynllunio wedi ei gyflwyno, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn cyhoeddi ei farnau ar y cynllun i'r cyhoedd drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol, gwefan, a / neu drwy lwyfannau'r wasg. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau sydd wedi cael eu hystyried mewn hyder gan y Comisiwn cyn bod cais cynllunio yn cael ei gyflwyno, ond a ddaw wedyn, yn gyhoeddus, drwy gyflwyno cais cynllunio. Yn yr achos hwn, bydd yr adroddiad Adolygu Dyluniadau yn cael ei gwneud yn gyhoeddus ar yr amod ei fod yn berthnasol i'r cynllun ar yr adeg y cafodd ei adolygu. Os yw cynllun wedi newid yn sylweddol, dylai'r tîm roi gwybod i Gomisiwn Dylunio Cymru am natur y newidiadau, neu ddod yn ôl ar gyfer ymgynghoriad pellach.

3.3.4

Dogfennaeth

Bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn storio ac yn gwneud copïau o ddeunydd a gyflwynwyd cyn yr adolygiad, a'u cyflwyno yn y cyfarfod Adolygu Dyluniadau.

O bryd i'w gilydd, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn tynnu lluniau mewn cyfarfodydd a gweithdai'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, er mwyn darparu deunydd gweledol i'w cyhoeddi yn ei lenyddiaeth, astudiaethau achos ac / neu ar gyfer dibenion eirioli addysgol, lledaenu neu eraill.

Os digwydd nad yw deunyddiau a delweddau eisoes yn y parth cyhoeddus, bydd Comisiwn Dylunio Cymru yn gofyn caniatâd y partion perthnasol cyn cyhoeddi unrhyw luniau, a bydd yn esbonio ei resymau dros eu defnyddio. Ni fydd Comisiwn Dylunio Cymru yn cyhoeddi unrhyw ddeunydd heb ganiatâd, cyn i'r prosiect ddod i mewn i'r parth cyhoeddus.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cydymffurfio â chyfraith hawlfraint fel y mae'n gymwys yng Nghymru a Lloegr, ac nid yw'n ecsbloetio lluniau a gasglwyd yn y modd hwn er budd masnachol.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn tynnu ar, ac yn cyhoeddi trosolwg a gwersi o'r Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau. Mae hyn yn aml yn golygu bod angen defnyddio lluniau o ddeunydd a gyflwynwyd ar gyfer cyfarfodydd adolygu. Bydd deunydd o'r fath ond yn cael eu cyhoeddi gyda chaniatâd y perchnogion, a bydd y Comisiwn yn gofyn am ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiadau Adolygu Dyluniadau oddi ar ein gwefan: <http://dcfw.org/?category=publications>

Gweithdrefnau 'galw i mewn' Llywodraeth Cymru ac Ymholiadau Cynllunio Arolygiaeth Gynllunio Cymru a Lloegr

Beth bynnag yw sefyllfa Comisiwn Dylunio Cymru ar geisiadau perthnasol, dylai awdurdodau lleol roi gwybod i Gomisiwn Dylunio Cymru os yw'r ceisiadau hynny yn destun gweithdrefn 'galw i mewn' gan Lywodraeth Cymru, neu'n destun Apêl Cynllunio, gan y gallai Comisiwn Dylunio Cymru ddymuno tynnu sylw at faterion penodol y gellid eu hystyried yn ystod proses galw i mewn, neu ddarparu tystiolaeth mewn ymchwiliad.

Mae sylwadau Comisiwn Dylunio Cymru yn cynrychioli 'ystyriaethau perthnasol' yn y broses gynllunio. Mae ein hadroddiadau ysgrifenedig yn cael eu cydnabod fel bod yn awdurdodol gan yr Arolygiaeth Gynllunio, a gellir cyfeirio atynt neu eu cynnwys mewn tystiolaeth a gyflwynir mewn ymchwiliad. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y Comisiwn yn cael ei gynrychioli ac / neu, yn rhoi tystiolaeth mewn gwrandawriad apêl yn ei swyddogaeth fel corff arbenigol annibynnol. Ni fydd y Comisiwn yn ymddangos ar ran apelydd neu awdurdod cynllunio lleol.

Dylid nodi bod adroddiadau'n sylwadau ar gynlluniau fel y'u cyflwynwyd ar adeg yr adolygiad. Gall cynigion newid yn sylweddol rhwng dyddiad yr arolwg a'r cyflwyniad cynllunio.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn ffodus i elwa o arbenigedd ymarferwyr o ystod eang o broffesiynau amgylchedd ac eiddo adeiledig. Cydnabyddir y gall cael arbenigedd o'r fath arwain at wrthdaro buddiannau posibl a / neu ganfyddiadau o wrthdaro o'r fath.

Fel corff cenedlaethol sy'n derbyn arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau tuag at gywirdeb cyhoeddus yn ddifrifol iawn, ac yn sicrhau bod unrhyw wrthdaro yn cael eu nodi, eu datgan a'u cofnodi yn gynnar, a bod camau priodol yn cael eu cymryd i ymdrin â hwy.

Mae'n ofynnol i'r Cadeirydd, Comisiynwyr, Staff a'r panel Adolygu Dyluniadau ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn cadw Cofrestr o Fuddiannau sy'n briodol i weithgareddau'r Comisiwn, sy'n rhestru diddordebau uniongyrchol ac anuniongyrchol y gallai aelodau o'r cyhoedd feddwl yn rhesymol allai ddylanwadu ar eu barn.

Mae Comisiynwyr ac aelodau'r panel Adolygu Dyluniadau yn diweddarau eu cofrestr yn flynyddol ac wrth i newidiadau ddigwydd, mae cofrestr Comisiwn Dylunio Cymru o fuddiannau ar gael i'r cyhoedd.

Yn ychwanegol at y cofnod cyhoeddus o ddiddordebau, mae'n rhaid i Gomisiynwyr ac aelodau o'r panel Adolygu Dyluniadau sicrhau bod:

- Datganiadau agored o unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn yr amser rhwng datganiadau blynyddol, yn cael eu cofnodi yng nghofrestr Comisiwn Dylunio Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt gael eu datgan unwaith y byddant yn codi.
- Gwahoddiadau neu fwriadau i ymuno â sefydliadau eraill ym mha bynnag gapasiti, yn cael eu datgan cyn gynted ag y maent yn digwydd
- Rhaid i ddatganiadau gael eu gwneud ynglŷn ag unrhyw berthynas uniongyrchol neu anuniongyrchol ag unrhyw gwmni, unigolyn, asiant neu barti arall sy'n ymwneud â chyflwyno prosiect i'r Comisiwn. Rhaid datgan hefyd, gwybodaeth am, neu ran yn yr un prosiect, neu un ar yr un safle ar gyfer cleient arall. Mae datganiadau o'r fath yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad Adolygu Dyluniadau. Os bernir bod achos o wrthdaro buddiannau yn bodoli, yna mae'n rhaid i'r aelod o'r panel dynnu allan o'r cyfarfod
- Ni ddylai gwybodaeth a gafwyd gan aelodau o dîm Comisiwn Dylunio Cymru a'r panel, yn ystod eu gwasanaeth gael ei defnyddio at ddibenion personol neu wleidyddol, i elwa'n ariannol neu'n anariannol, ac ni ddylai aelodau Panel, staff neu Gomisiynwyr geisio defnyddio'r cyfle i hyrwyddo buddiannau preifat unigolion, cwmnïau, busnesau neu sefydliadau cysylltiedig eraill.

Gwybodaeth Gyswilt

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Gwasanaeth Adolygu Dyluniadau, cysylltwch â ni:

Comisiwn Dylunio Cymru / Design Commission for Wales
4th Floor, Cambrian Buildings
Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FL

+44 (0) 29 2045 1964
connect@dcfw.org
www.dcfw.org
Twitter: @designcfw

Atodiadau

Cyfeiriadau ac Adnoddau

- Polisi Cynllunio Cymru 10
- Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio
- Adnoddau a Siarter Creu Lleoedd Cymru
- Cynllunio ar gyfer adeiladau cynaliadwy
- Ceisiadau cynllunio: canllawiau ar ddatganiadau dylunio a mynediad, wedi ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru
- Datblygiadau cynllunio: canllawiau ar ddadansoddi safle a chyd-destun



DESIGN
COMMISSION
FOR WALES
COMISIWN
DYLUNIO
CYMRU